

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod rhithiol Cyngor Cymuned Llanllyfni, a gynhaliwyd dros y wê, Nos Fawrth, 8 Mehefin 2021 am 7.00 o'r gloch.

Agenda

1. **Presenol:** Dafydd Thomas (Cadeirydd) – Nebo, Sian Dafydd, Peter Bridges, Gareth Lloyd Jones – Talysarn; Ceri Owen, Heledd Gwilym, Erfyl Williams, Justin Davies, Dylan Herbert – Penygroes; Gwyndaf Roberts, O P Huws – Llanllyfni. Judith Humphreys, Craig ab Iago – Cynghorwyr Sir.

Ymddiheuriadau: Harry Wyn Owen – Talysarn, Ffion Jones – Nantlle, Hefina Roberts – Llanllyfni, Barry Bracegirdle – Penygroes. Ni dderbynniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Dilwyn Lloyd - Talysarn.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd.

2. **Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir**- Neb yn datgan.

3. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod 11 Mai 2021 –** Cynnigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. **Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd -** Adroddodd Judith Humphreys ei bod wedi cael cyswllt gyda criw Dorothea ynglŷn â pobl ifanc yn yr ardal.

5. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir –** Roedd pawb wedi derbyn adroddiad ymlaen llaw gan Judith Humphreys a wedi cael cyfle i edrych drosti cyn y cyfarfod. Nid oedd dim yn codi o'r adroddiad a diolchwyd i Judith. Gofynwyd i'r clerc ofyn i Craig ab Iago os yn bosib iddo baratoi adroddiad ymlaen llaw er mwyn i bawb gael amser i'w darllen cyn y cyfarfod a codi unrhyw gwestiynau os oedd angen.

6. **Taflen ariannol a chyllid** - Copi o'r taflenni wedi eu gyrru i'r cynghorwyr dros e-bost ymlaen llaw i'r cyfarfod er mwyn iddynt gael cyfle i edrych drostynt. Holodd Sian Dafydd os oedd y cyngor wedi cytuno i roi £3000 ychwanegol mewn cyfarfod cynt tuag at y golau nadolig – roedd y clerc wedi edrych a nid oedd cofnod o hyn. Esboniodd Gareth Jones bod modd ail edrych ar y gyllideb a symud arian o rywle arall at hyn. Cytunwyd i drefnu cyfarfod is-bwyllgor cyllid cyn y cyfarfod llawn nesaf. Eisiau penodi aelodau sefydlog i'r is-bwyllgorau er bod gan bob cynghorydd hawl i fynychu yr is-bwyllgorau. Trafodwyd a penderfynwyd ar aelodau sefydlog fel a ganlyn – Is-bwyllgor Cyllid – Dafydd Thomas, Gwyndaf Roberts, Gareth Jones, OP Huws, Heledd Gwilym a Barry Bracegirdle. Is-bwyllgor mynwentydd – Dafydd Thomas, Gwyndaf Roberts, Sian Dafydd, Harry Owen, OP Huws a Barry Bracegirdle.

7. **Cyhoeddi cydnabyddiaeth ariannol aelodau 2019/20** – Y clerc wedi derbyn e-bost gan y panel hwn yn esbonio bod diffyg cydymffurfiaeth wedi bod am y flwyddyn 2019/20. Esboniwyd pa mor bwysig yw i bawb ddatgan os ydynt am dderbyn y gydnabyddiaeth neu ddim. Y clerc i ymateb i'r e-bost gyda esboniad pan fod hyn wedi digwydd a gyrru y cyhoeddiad am 2019/20 a 2020/21 iddynt a'u rhoi ar wefan y Cyngor Cymuned.

8. **Cyfarfodydd is-bwyllgor / Cyfarfodydd yn ystod y mis –** dim cyfarfodydd wedi eu cynnal.

9. **Cyfarfodydd dan do** – Trafodwyd hyn a penderfynwyd i gynnal y cyfarfod llawn nesaf yng Nghanolfan Talysarn lle mae'r ystafell yn ddigonol ar gyfer cynnal cyfarfod a bydd ymbellhau cymdeithasol yn bodoli rhwng pawb.

10. **Materion Pentrefi – Penygroes** – Adroddodd Dylan Herbert fod ambell i dyllau yn y ffyrdd wedi eu llenwi yn dilyn i ni yrru y lluniau o'r cyflwr a llythyr i Gyngor Gwynedd – ond yn anffodus nid yw pob pentref wedi cael sylw. Adroddwyd fod sî am lawer o rieni yn meddwl symud eu plant o Ysgol Dyffryn Nantlle i ysgolion uwchradd eraill – holwyd Judith a Craig am

hyn a maent mewn trafodaeth gyda'r ysgol – gofynodd Dafydd os y buasai yn bosib cael adroddiad ganddynt am hyn yn y cyfarfod nesaf. Erfyl Williams yn pryderu am y broblem parcio ar y Stryd Fawr lle mae pobl yn parcio ar y palmant sydd yn ei gwneud yn beryglus i gerddwyr ag i gerbydau – y clerc i gysylltu gyda'r heddlu am hyn i weld beth ellir ei wneud. **Llanllyfni** – Gwyndaf Roberts yn adrodd fod tyllau wedi ymddangos yn y ffordd ger Fron Deg. Cwynion fod y cae chwarae angen ei dorri a bellach mae llawer yn mynd a'u cwn yno a ddim yn codi eu baw. Carafan static wedi dod i Bryn Teg – a oes angen caniatad cynllunio? Tŷ yn Nasareth wedi ei brynu ac yn y broses o gael ei dynnu lawr – oes hawl wedi ei roi ar gyfer hyn? Pryderus am hyn gan fod yr adeilad yn colli cymeriad – y clerc i gysylltu gyda'r adranau cywir am y materion hyn. OP Huws wedi drafftio llythyr Cylch Iaith a pawb wedi cael copi a pawb yn cytuno iddo gael ei basio ymlaen i Roland Evand yn y cyngor. **Nantlle** – dim i'w adrodd. **Talysarn** – Ebost wedi ei dderbyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â llawer o faterion – darllenwyd yr ebost i bawb a penderfynwyd i'r clerc gysylltu gyda'r gwahanol adrannau yn y cyngor sydd yn delio gyda'r materion ag ymateb i'r ebost yn dweud hyn. Sian yn adrodd fod Rhian George wedi drafftio cyfansoddiad ar gyfer y parc sglefrio a nawr angen i'r grŵp gyfarfod i'w drafod. Peter yn siomedig am gyflwr y ffyrdd a fod rhai llefydd wedi cael sylw ag eraill ddim. Adroddwyd fod carafan wedi cyrraedd eiddo yn Ffordd Nantlle a bod llanast a niwsans yn dod o'r eiddo. Adroddwyd fod y sefyllfa yn nwylo yr heddlu ond y clerc i gysylltu gyda cyngor Gwynedd a'r heddlu i nodi pryderon y cyngor cymuned am hyn. **Nebo** – Dim i'w adrodd.

11. Ceisiadau Cynllunio –

C21/0430/22/LL – Tir dros ffordd i Oxton Villa, Penygroes – Cais ar gyfer codi tŷ fforddiadwy gyda mynedfa a parcio a tirweddu cysylltiol – dim gwrthwynebiad

C21/0461/22/LL – Capel Bach, Nebo – Cais ar gyfer codi adeilad amaethyddol ar gyfer cadw cyfarpar ar gyfer cynnal tir cyn-chwarel – dim gwrthwynebiad

NP3/22/LU79B – Bryn Trallwyn, Nebo – Cais am dystysgrif defnydd neu ddatblygiad cyfreithiol i ddefnyddio adeilad fel annedd sydd wedi cael caniatâd cynllunio eisioes fel llety gwyliau tymor byr yn unig – dim gwrthwynebiad

C21/0506/22/DT – Tyddyn Llwyd Coed, Llanllyfni – Estyniad lolfha haul – Y clerc i holi ynglŷn â'r anghydfod a fu gyda llwybr rhif 82 yn mynd trwy y tir hwn – os wedi ei sortio yna dim gwrthwynebiad i'r cais.

12. Gohebiaeth – Aethpwyd drwy yr ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn a penderfynwyd y buasai yn syniad i gynnal pwyllgor ar gyfer y safle ail-gylchu a gofyn i Steffan Jones o'r Cyngor i fod yn bresennol – y clerc i gysylltu gyda Steffan i holi pa bryd fysa yn gyfleus. Ystadegau Tai Haf – wedi derbyn y ffigyrau ond eisiau gwybod fesul ward – y clerc i ail-gysylltu i holi hyn a hefyd gofyn am y ffigyrau ar gyfer y 5mlynedd ddiwethaf. Hefyd gofyn faint o dai sydd yn talu y premiwm.

13. Llwybrau a Mynwentydd – Mae problem wedi codi gyda nifer o gwningod ym Mynwent Macpela – roedd gan Sain gyswllt gyda cwmni a oedd yn delio gyda hyn felly am gael y rhif ffôn ag yna Nia i gysylltu i weld beth ellir ei wneud. Cytunodd pawb i gario ymlaen gyda hyn. **Tendr Macpela** – Adroddoddwyd beth oedd wedi bod yn mynd ymlaen ers y cyfarfod diwethaf ac esboniwyd y bydd cyfarfod is-bwyllgor arall yn cael ei gynnal wythnos nesaf. Esboniodd Dafydd bod yn bwysig i'r gwaith gael ei wneud dros yr haf felly bydd yn rhaid penderfynnu cyn cyfarfod mis nesaf pwy fydd yn cael y gwaith – cytunodd y pwyllgor llawn yn unfrydol i hyn fynd ymlaen. **Cytundeb pori** – roedd y sawl sydd yn rhentu y cae wedi holi os oedd posib mynd o fis i fis hyd nes bod y gwaith yn y fynwent yn cael ei ddechrau. Trafodwyd a chytunwyd yn unfrydol i hyn gario ymlaen ar ôl gweld pwy fysa yn enill y gontract a pryd y bysa y gwaith yn dechrau. **Cais Cyngor Cymuned Llandwrog** – cais wedi dod gan CC Llandwrog i ofyn os oedd CC Llanllyfni am gyd-weithio mewn partneriaeth gyda nhw eto ar gyfer y dendr torri llwybrau a mynwentydd. Trafodwyd y mater a'r teimlad oedd y buasai yn symlach mynd ein hunain. Cynnigiodd Justin i CC Llanllyfni wrthod y bartneriaeth, eiliodd Sian a cytunodd pawb.

14. Materion ariannol -

- Cyngor Gwynedd – $1750.00+350.00(\text{TAW}) = \text{£}2100.00$ – y gwaith bellach wedi ei wneud felly cytuno i'w dalu.
- Nia Jones - £25.00 Ffôn a rhyngrwyd Mehefin 2021 - cytunwyd
- Nia Jones - £14.39 Zoom Mehefin 2021 – cytunwyd
- Nia Jones - £14.19 Postio a stampiau – cytunwyd
- Nia Jones - $\text{£}24.01+\text{£}4.80 (\text{TAW}) = \text{£}28.81$ – papur argraffu a offer swyddfa eraill – cytunwyd.